Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair

**Ffordd Longford**
**Caergybi**
**LL65 1TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 143 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 114 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 22 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 18.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 23.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 28/11/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Santes Fair yn ysgol ofalgar, sy’n annog disgyblion i fod yn hapus a mwynhau’r ysgol, tra’n dysgu mewn amgylchedd cynnes a chynhwysol. Mae disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan yn y tasgau a ddarperir ar eu cyfer ac yn defnyddio strategaethau ac adnoddau effeithiol i ddysgu’n gynhyrchiol. Mae hyn oherwydd y perthnasoedd gweithio pwrpasol sy’n bodoli gyda’r rhan fwyaf o’u hathrawon ac aelodau staff eraill.

Pan mae’r dysgu yn hynod lwyddiannus, mae’r addysgu yn ddifyr, yn fywiog, yn gadarnhaol ac mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu a chynllunio’r cwricwlwm yn effeithiol ym mhob dosbarth. Yn ychwanegol, mae effaith adborth athrawon ar y camau nesaf yn nysgu disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn darparu cymorth, gofal ac arweiniad cryf i ddisgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i ganolbwyntio’n gyfrifol ar eu dysgu a’u lles unigol. Mae ymddygiad disgyblion yn ddi-fai ac maent wedi eu cymell i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau siarad, gwrando, darllen a medrau creadigol da. Hefyd, maent yn datblygu medrau ysgrifennu addas, ac mae eu medrau digidol a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn foddhaol. Mae staff yn defnyddio ardaloedd o dir helaeth yr ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau wedi’i datblygu’n ddigonol.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol, a gofal a lles y disgyblion sydd wrth wraidd ei weledigaeth. Mae wedi’i gymell i lwyddo er budd y disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth, y rhan fwyaf o’r staff a’r llywodraethwyr yn rhannu ei athroniaeth anogol. Eu nod yw sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gadarnhaol sy’n hyrwyddo cyfleoedd buddiol ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cynlluniedig, sy’n arwain at gynlluniau datblygu effeithiol. Mae’r arferion monitro hyn yn arwain at gyfleoedd hyfforddiant proffesiynol i staff ddatblygu eu medrau trwy gyrsiau dysgu proffesiynol pwrpasol.

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â phroblem diogelwch ar y safle, a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Sicrhau bod ansawdd yr addysgu a chynllunio profiadau dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol

A3 Cyd-gynllunio i wella medrau rhifedd a digidol disgyblion

A4 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu’r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn effeithiol

A5 Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol mwyafrif y disgyblion islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod cyfan yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir, ac yn mynegi eu syniadau'n synhwyrol. Mae disgyblion iau yn trafod eu gwaith gydag oedolion a'u cyfoedion yn frwdfrydig, er enghraifft pan fyddant yn talu ei gilydd am ffrwythau a llysiau yn y siop chwarae rôl yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg ac yn cynnig atebion a mynegi barn yn aeddfed. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod yn hyderus sut i ddefnyddio hieroglyffau i greu eu codau eu hunain.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn i ddisgyblion fod yn saith mlwydd oed, mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl ac yn gywir, ac yn dadgodio geiriau anghyfarwydd yn gywir. Mae'r disgyblion hynaf yn yr ysgol yn darllen testunau cymhleth â dealltwriaeth dda. Maent yn ddarllenwyr hyderus, ac yn chwilio am wybodaeth o destunau amrywiol a gwefannau priodol yn bwrpasol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i gymdeithas Maiaid ac yn cymharu eu harferion bwyta â sut rydym ni'n bwyta heddiw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu medrau echddygol manwl yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn peintio'n ofalus â brwshys. Mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd da â'u medrau ysgrifennu cynnar. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd yn gyflym o greu marciau yn y dosbarthiadau ieuengaf i ffurfio llythrennau, geiriau a brawddegau erbyn iddynt symud i Flwyddyn 1. Mae mwyafrif ohonynt yn sillafu'n gywir ac yn atalnodi'n ofalus hefyd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith amrywiol i ysgrifennu storïau a cherddi. Er enghraifft, maent yn disgrifio eu gwyliau ar gardiau post i roi gwybod i bobl eraill am eu profiadau.

Yn nosbarth Blwyddyn 5/6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn trefnu eu gwaith yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o strwythur brawddeg ac atalnodi. Maent yn creu darnau dychmygus mewn gwahanol ffurfiau, yn ysgrifennu llythyrau ffurfiol yn gywir ac yn defnyddio cyflythrennu a phersonoli'n dda i wella'u gwaith. Er enghraifft, yn y dosbarth hwn, mae disgyblion yn creu set o ffeithiau manwl ar deyrnas hanesyddol Benin ac yn disgrifio'i cherfluniau a'i phlaciau yn gywir. Fodd bynnag, nid yw safon medrau ysgrifennu estynedig disgyblion wrth iddynt adael Blwyddyn 2 yn datblygu'n ddigon da hyd nes eu bod yn cyrraedd brig yr ysgol.

Mae'r cynnydd a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg wrth iddynt deithio trwy'r ysgol yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion addas yn rheolaidd mewn sefyllfaoedd bob dydd ac yn rhoi atebion boddhaol yn ystod trafodaethau ag athrawon a gyda'i gilydd.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn deall ac yn defnyddio egwyddorion mathemategol yn effeithiol. Maent yn defnyddio rhifau yn hyderus, yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi eu canlyniadau mewn tablau a siartiau syml. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o briodoleddau gwahanol siapiau, ac enghraifft dda o hyn yw pan fydd disgyblion yn creu patrymau cymesur o faneri a phryfed. Maent yn mesur hyd eu traed eu hunain yn gywir trwy ddefnyddio amrywiaeth o offer mesur, ac yn arbrofi â chynhwysedd wrth ddefnyddio sgwpiau i lenwi hambyrddau sy'n dal cacennau cwpan. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau mathemategol yn dda mewn tasgau dilys, fel cymharu meintiau gwahanol ffrwythau ar ôl astudio stori Affricanaidd.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn dangos medrau mathemategol cadarn, ac mae'r disgyblion mwy abl yn datblygu strategaethau soffistigedig i ddatrys problemau, fel defnyddio cyfesurynnau mewn pedwar cwadrant yn hyderus. Maent yn dadansoddi data yn gywir ac yn ei gyflwyno'n bwrpasol mewn ffurfiau amrywiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymharu amrywiaeth o dymereddau gan ddefnyddio rhifau positif a negyddol ar siartiau a graffiau yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth effeithiol o gysyniadau mathemategol, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon wrth gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau digidol boddhaol. Mae disgyblion iau yn defnyddio swyddogaethau camera i greu dyluniadau ar gyfrifiadur yn effeithlon, ac yn defnyddio bwrdd rhyngweithiol yn fedrus i gyfrif rhifau, a'u rhoi yn eu trefn. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng ac yn trin testunau yn effeithiol wrth sgriptio a ffilmio storïau antur am goedwig. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn creu cronfeydd data a thaenlenni yn hyderus ac nid ydynt yn casglu gwybodaeth o ddata â digon o ddealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau artistig dychmygus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu murlun ar yr ardal yn seiliedig ar waith yr arlunydd o Gymru, Rhiannon Roberts. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn bwrpasol, er enghraifft dylunio celf wal â phaent mwd a chelf dail yn ystod wythnos awyr agored a lles yr ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff. Maent yn arddel ethos cryf yr ysgol, sef parch a goddefgarwch, ac yn cydymffurfio'n dda â'r disgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Mae hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth tuag at ei gilydd ac oedolion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a'u dysgu. Maent yn barod iawn i gymryd rhan mewn gwersi ac yn mwynhau eu profiadau dysgu mewn amgylchedd anogol, gofalgar a phwrpasol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir iawn o reolau'r ysgol, ac yn esbonio'n dda pam maent yn bwysig a beth sy'n digwydd os na fyddant yn glynu at y rheolau.

Mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn eithriadol o dda, ac maent yn symud rhwng dosbarthiadau ac ardaloedd eraill mewn ffordd gwrtais a rheoledig. Maent yn foesgar ac yn dangos caredigrwydd a pharch at bob un o’r oedolion, ac at ei gilydd. Mae ‘Negeswyr Etholedig Mair’ yn cefnogi’r awyrgylch hwn o lonyddwch. Mae ‘Angylion Gwarcheidiol’ yr ysgol hefyd yn cyfrannu at y meddylfryd hwn ac yn helpu rhoi synnwyr o berchnogaeth a chyfrifoldeb i ddisgyblion am eu lles eu hunain. Er enghraifft, maent wedi arwain y dasg i ddodrefnu ‘Cornel Cwtsh’ ger dosbarthiadau’r disgyblion hŷn i ddarparu gofod i ddisgyblion ymlacio a myfyrio.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cydweithio’n dda ar dasgau ac yn dangos parch at farn a safbwyntiau pobl eraill. Maent yn gwrando ar, ac yn ystyried, cyfraniadau pobl eraill yn ofalus, gan wneud ymatebion meddylgar sy’n cefnogi teimladau pobl eraill. Maent yn uniaethu’n dda â’u cyfoedion ac yn dangos hyn trwy fod yn gwrtais ac ystyriol pan fyddant yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd chwarae. Er enghraifft, yn ystod gwersi, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud defnydd da iawn o’u partneriaid dysgu, sy’n newid yn rheolaidd, i gefnogi dysgu ei gilydd. Mae hyn yn bwrpasol ac yn atgyfnerthu parodrwydd disgyblion i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau am fwyta’n iach a’r angen i aros yn gorfforol egnïol. Maent yn gwneud defnydd da o offer ar yr iard yn ystod amseroedd egwyl, sy’n eu hannog i ddysgu’n annibynnol. Er enghraifft, maent yn dylunio eu hardal chwarae antur yn hyderus, gan ddefnyddio teiars a phlanciau, i adeiladu eu llwybr antur eu hunain. Mae hyn yn datblygu eu medrau balansio, corfforol a chydweithredu yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn defnyddio strategaethau i gefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio cymeriadau model sy’n cyfleu negeseuon cadarnhaol, i’w hatgoffa am eu hyder a’u gwydnwch eu hunain, wrth ddyfalbarhau â’u gwaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fedrus wrth chwilio am ffyrdd newydd o lwyddo pan fyddant yn wynebu heriau. Maent yn defnyddio mecanweithiau copïo yn dda, sy’n canolbwyntio ar ymgorffori strategaethau lles yn eu bywydau bob dydd, pan fyddant yn wynebu tasgau anodd. Maent yn gweithio â’u cyfoedion yn effeithiol i ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth gan oedolion. Er enghraifft, maent yn defnyddio strategaeth ‘Meddwl, Mêt, Miss’ yn bwrpasol yn ystod gwersi wrth weithio ar eu tasgau. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith, ac yn dyfalbarhau a dangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried yn ofalus mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Mae ganddynt ran gynhyrchiol ym mywyd yr ysgol ac yn gweithio fel aelodau o’r amrywiol grwpiau llais y disgybl. Mae cynrychiolwyr yn gwneud eu gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau, a thrwy wneud hynny, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr digidol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu defnydd o apiau yn gywir, ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o ddiogelwch ar-lein ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos tosturi at bobl eraill yn reddfol, er enghraifft trwy gefnogi digwyddiadau elusennol lleol. Er enghraifft, maent yn helpu trefnu bore coffi llwyddiannus Offeren y Cynhaeaf, ac yn pobi cacennau ar gyfer y digwyddiad. Trwy eu gweithredoedd, gall yr ysgol gyfrannu cymorth ariannol tuag at achosion da o gwmpas y byd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd eu gweithredoedd tuag at greu cymdeithas ofalgar a goddefgar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng y rhan fwyaf o staff a disgyblion yn gryf. Ar y cyfan, mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys y rhai sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth buddiol i'r disgyblion hyn ac yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn effeithiol. Mae cyflymdra bywiog y rhan fwyaf o'r gwersi yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda, ac yn eu cymell i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, pan nad yw'r gwersi mor effeithiol, mae cyflwyniadau'n rhy hir, yr addysgu'n statig a heb agwedd gadarnhaol, ac mae ymgysylltiad cyfyngedig â disgyblion yn ystod tasgau.

Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, caiff disgyblion amrywiaeth o brofiadau i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn nosbarth Blwyddyn 5/6, mae'r athro'n darparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ymchwilio i fywydau tywysogion Cymru. O ganlyniad, maent yn ysgrifennu llythyrau ffurfiol i gefnogi eu cynllwyniau ar gyfer rhyddhau carcharorion o Gastell Biwmares. Mae addysgu effeithiol yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud marciau i gynllunio partïon pen-blwydd, ac yn defnyddio symbyliad lindys i hyrwyddo bwyta'n iach yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn ysgrifennu cardiau post am Ynys Gybi ac yn defnyddio cyfesurynnau ar fap i nodi tirnodau lleol yn bwrpasol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn herio disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig yn ddigon aml.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau siarad, gwrando a darllen trwy dasgau pwrpasol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio geirfa estynedig yn dda yn ystod Bedydd dychmygus ar gyfer 'Jane y ddol' yn yr eglwys leol. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn siarad am hanes pobl ddu yn ddeallus, fel Rosa Parks a Betty Campbell. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, nid yw cynllunio'n adeiladu'n systematig ar y medrau hyn yn effeithiol o un flwyddyn i'r llall. Nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso eu medrau'n gydlynus ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau rhifedd a digidol.

Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang ac amrywiaeth y byd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn

llwyddiannus hefyd, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dechrau cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n hyrwyddo diddordeb disgyblion yn eu hardal leol ar ôl dilyn llwybr i gopa Mynydd Twr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu awgrymiadau yn synhwyrol wrth gynllunio testunau. Maent yn defnyddio'r safbwyntiau hyn yn dda fel rhan o brofiadau dysgu disgyblion, fel prynu cynhwysion ar gyfer brechdan mewn siop leol ar gyfer te parti cymeriad ffuglennol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gyffrous i rannu eu profiadau â phobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am integreiddio eu syniadau mewn tasgau sy'n eu helpu i adeiladu gwesty chwilod. Mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddisgyblion ymchwilio i lwybrau gyrfa posibl yn y dyfodol a'r byd gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn archwilio rolau gweithwyr mewn hyb ynni tonnau, a gynlluniwyd ar gyfer y morlin cyfagos.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu wrth ymateb i waith disgyblion. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhannu adborth medrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu disgyblion a thargedu unrhyw anghenion yn brydlon. Fodd bynnag, nid yw arferion i ymateb i waith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae hyn yn rhwystro dealltwriaeth disgyblion o'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith, a'r cynnydd at y cam nesaf yn eu dysgu. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau blynyddol addas ar gynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu pwyllog a diddorol lle defnyddir pob ardal yn bwrpasol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae staff ar draws yr ysgol yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn i'r adeilad i symbylu disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael yn briodol, fel ardal y coetir a'r ardd weddi. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth a phrofiadau dysgu ysgogol a rheolaidd yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer disgyblion hyd at Flwyddyn 2.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu'n gadarnhaol at ei hethos cefnogol a chyfeillgar. Mae'r perthnasoedd buddiol rhwng y rhan fwyaf o staff a disgyblion, a rhwng disgyblion o wahanol oedrannau, yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn deall anghenion disgyblion yn dda, ac yn ymateb â sensitifrwydd i anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r awyrgylch cefnogol a chynnes hwn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymgyfarwyddo'n hawdd â bywyd ysgol, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd yn yr ysgol, a'u lles cyffredinol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Trwy ystod o grwpiau llais y disgybl, mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar lefel ysgol a dylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae gan bob un o'r disgyblion 'broffil un dudalen' sy'n amlinellu eu diddordebau, sut mae'n well ganddynt gael cymorth i ddysgu, a'r

meysydd y maent yn gweithio arnynt i'w gwella. Mae'r proffiliau hyn yn cryfhau dealltwriaeth yr ysgol o bob disgybl ac yn helpu staff i gefnogi dysgu a lles disgyblion ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY yn gryf. Mae cydlynydd effeithiol yr ysgol, ynghyd â staff cymorth sydd wedi cael hyfforddiant da, yn sicrhau bod trefn dda o ran nodi, olrhain a chymorth ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n agos ag ysgolion lleol i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion gan staff. Mae athrawon a staff cymorth yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob un o'r disgyblion trwy adolygiadau cynnydd cynhwysfawr disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol ag ystod o wasanaethau arbenigol i sicrhau adnoddau ychwanegol ac amserol i gynorthwyo disgyblion ag ystod o anghenion. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ddiddorol o ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi'r cwricwlwm ac ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r ganolfan awyrennau gyfagos lle mae disgyblion yn adeiladu tyrau rheoli hediadau ac yn ymchwilio i erodynameg gan ddefnyddio awyrennau model. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn cyfrannu at apêl bocsys esgidiau, sy'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd, fel yr hawl i gael bywyd heb newyn a syched. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys astudio bywyd Aneurin Bevan, sylfaenydd y GIG, a phersonoliaethau enwog eraill o Gymru o gefndiroedd artistig a'r byd chwaraeon, fel Shirley Bassey a Gareth Thomas.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â chymuned leol sy'n cefnogi dysgu a lles disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â rhieni a busnesau lleol i ddatblygu ei hadnoddau awyr agored, fel y llwybr antur a'r llwybr coetir. Yn ychwanegol, mae'r cyfnod ar ôl y pandemig wedi cyfyngu ar allu'r ysgol i gynnal rhaglen o weithgareddau ôl-ysgol sydd wedi'i llunio'n dda.

Mae'r ysgol yn cefnogi lles disgyblion trwy weithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol a swyddogion cymunedol lleol yr heddlu. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio'n effeithiol ar ddarpariaethau lles lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio strategaethau lles yn effeithiol i annog disgyblion i ofalu am eu hiechyd meddwl. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen mwy o gymorth emosiynol a chymorth lles, mae aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant arbennig yn yr ysgol, ac mae'r ddarpariaeth hon yn effeithiol iawn wrth fynd i'r afael ag anghenion disgyblion a allai fod yn teimlo'n orbryderus yn ystod y diwrnod ysgol.

Ceir cysylltiadau effeithiol â'r gymuned. Mae'r cysylltiadau cryf â'r eglwys leol yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, ac yn annog disgyblion i fyfyrio ar ystod eang o faterion moesegol a moesol yn synhwyrol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn annog disgyblion i helpu pobl eraill trwy godi arian ar gyfer gwahanol elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn eu helpu i ddechrau deall materion pwysig yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd empathi, dewrder, a thosturi yn effeithiol.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb yn effeithlon. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwella presenoldeb ar hyn o bryd. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gynorthwyo disgyblion a deall eu rolau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn peri pryder. Fodd bynnag, tynnwyd sylw arweinwyr yr ysgol at fater yn gysylltiedig â diogelwch ar y safle yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus a'u bod yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar fwynhau eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n rhoi gofal a lles disgyblion wrth wraidd ei weledigaeth. Mae staff yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn cymryd gofal mawr i gefnogi rhoi'r weledigaeth hon ar waith. Mae'r meddylfryd cadarnhaol hwn gan y rhan fwyaf o staff a'r ymdrech gan arweinwyr i greu ethos o gydweithredu yn cael effaith bwrpasol ar agweddau disgyblion at ddysgu, a'u cymorth i'w gilydd.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r athroniaeth hon, ac ar y cyfan, mae staff yn gweithredu'n bwrpasol ar ddisgwyliadau arweinwyr. Er bod perthnasoedd gweithio dan straen ymhlith staff wedi cyfyngu ar effeithiolrwydd cydweithio yn y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr yn ymdrechu i greu ac ymgorffori ethos gofalgar a chynhwysol ymhlith pob un o'r staff a'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae trefniadau i ddosbarthu rolau arwain yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith ac maent yn gweithredu yn unol â phryderon pan fydd angen. Mae arweinwyr yn ceisio creu cysondeb yn arferion yr ysgol i sicrhau bod pob aelod o staff yn canolbwyntio ar ddarparu arferion cytûn er budd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys parodrwydd i wella ansawdd yr addysgu ac ymgorffori dealltwriaeth ar y cyd o werthoedd proffesiynol ymhlith staff. Fodd bynnag, nid yw hyn yn symud mor gyflym â'r disgwyl, yn enwedig o ran addysgu effeithiol, gwaith tîm a disgwyliadau uchel.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Ceir cyswllt clir rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau yn effeithiol ac yn gosod targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen, fel gwella medrau rhifedd disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol â phob un o'r staff yn bwrpasol.

Mae prosesau arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae systemau gwella ansawdd yn cynnwys trafodaethau â disgyblion am eu gwaith a'u lles, a monitro effaith yr addysgu fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad. Mae arweinwyr yn casglu barn partneriaid eraill yn effeithiol, yn ystyried barn rhieni ac yn gweithredu'n synhwyrol yn unol ag unrhyw ganfyddiadau. Er enghraifft, gwrandawodd yr ysgol yn dda ar rieni ar sut i ddangos iddynt beth mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, a chyflwyno ap i gyflawni hyn yn fwy effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi perthnasol ar gael i staff i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ac yn cefnogi staff i ddatblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n

effeithiol i wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn trefnu hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff i ddatblygu medrau cyfathrebu ac emosiynol disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymweld ag ysgolion lleol eraill i rannu arferion effeithiol, ac mae hyn yn cefnogi gwelliant yr ysgol yn fuddiol. O ganlyniad, rhoddir cyfleoedd cynhyrchiol i staff sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau arwain. Er enghraifft, mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n effeithiol â rhwydwaith o gydweithwyr i ddatblygu'r disgwyliadau yn gysylltiedig â diwygio ADY.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad ac yn gadael i ddisgyblion ddylunio ardaloedd cymorth, fel 'Cornel Cwtsh'. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hardaloedd awyr agored eang yn briodol, fel coetir a llwybrau antur. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth awyr agored reolaidd a phrofiadau dysgu i ddisgyblion hyd at Flwyddyn 2. Nid yw adnoddau ar gyfer y disgyblion hyn yn yr ardal awyr agored yn cyfoethogi eu profiadau yn ddigon llwyddiannus i ymestyn eu medrau ymhellach.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn effeithiol ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu rhaglenni cymorth, prynu offer ac ariannu ymweliadau lleol. Maent yn dechrau mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio'r gymuned leol yn symbyliad ar gyfer dysgu, fel y gaer Rufeinig ar dir Eglwys Sant Cybi.

Mae mewnbwn llywodraethwyr, trwy is-bwyllgorau a'r corff llywodraethol llawn, yn creu gwelliannau addas ar draws yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn dwyn yr uwch dîm arweinyddiaeth i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn hysbysu'r llywodraethwyr yn gywir am ddysgu disgyblion, ac maent yn ystyried sut i wella darpariaeth yn ystyriol, er enghraifft ariannu a datblygu llwybr coetir. Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach, ac mae arweinwyr yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd cael bwyd maethlon yn eu blychau bwyd. Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd ac yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel datblygu cymorth ymyrraeth ar gyfer pob dosbarth.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2023